Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor nos Fercher, 16 Hydref 2024, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'i ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, S. Feeney, K.R. Jones, W. Price,
Ms R.S. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol

Y Cynghorydd Mrs M. Blakeley-Walker – Arsylwi
Y Cynghorydd Mrs E. Chard – Arsylwi
Mr. G.J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**23. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Miss S. Fleming, a Mrs. D.L. King.

**24. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR Y CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 24.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Barclays, 68 – 70 Stryd Fawr, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2024/1315<br><br>**DISGRIFIAD**: Addasiadau allanol i gefnogi dadgomisiynu'r banc<br><br>**YMGEISYDD:** Banc Barclays<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

| | |
|---|---|
| 24.2 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Spar, 2 Ffordd y Morfa, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Cefndy<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Ms. S. Fleming<br>Mrs. D. King<br>Ms. R. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2024/1345<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>:** Newid defnydd siop nwyddau cyfleustra i gaffi/bistro a gwaith cysylltiedig<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Stephen Darbey<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Dim gwrthwynebiad* |
| 24.3 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** Helens, 45 Ffordd Trellewelyn, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Trellewelyn<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Mrs. M. Blakeley-Walker<br>W. Price<br>Ms. V. Roberts<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2024/1239<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Newid defnydd o siop trin gwallt i siop bwyd poeth tecawê<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Thananjcheliyan Ernest<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>:*** *Gwrthwynebiad ar y sail y byddai'r newid defnydd arafethedig yn arwain at effaith annerbyniol ar amwynder y meddianwyr preswyl uwchben, i'r ochr a gyferbyn â lleoliad y cais drwy gyfrwng cynnydd mewn sŵn, tarfu ac arogleuon. Ystyrir fod y cais yn annerbyniol ar y sail hwn gan ei fod yn groes i brawf vi) Polisi RD1 Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych, canllawiau'r Llawlyfr Rheoli Datblygu a'r cyngor yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir – 'Bwytai Tecawê Bwyd Poeth.'* |
| 24.4 | **<u>LLEOLIAD Y SAFLE</u>:** 14 Stryd Caerfaddon, Y Rhyl<br><br>**<u>WARD:</u>** Bodfor<br><br>**<u>CYNGHORWYR Y WARD</u>**: Ms J. Hughes<br>Ms J. McAlpine<br><br>**<u>RHIF Y CAIS</u>:** 45/2024/1351<br><br>**<u>DISGRIFIAD</u>**: Newid defnydd annedd unigol i ffurfio tŷ amlfeddiannaeth<br><br>**<u>YMGEISYDD</u>:** Mr Aleem Choudhry<br><br>***<u>PENDERFYNIAD</u>****: Gwrthwynebiad: Mae'r Cyngor Tref yn dymuno gwrthwynebu'r cais hwn yn gryf. Fe'i ystyrir yn groes i Bolisi BSC7 yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Cyngor Sir Ddinbych, sy'n nodi:* |

| | |
|---|---|
| | *"Polisi BSC 7 – Ni fydd cynigion am Dai Amlfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhwysol a fyddai'n arwain at greu tai amlfeddiannaeth neu fflatiau nad ydynt yn hunangynhwysol yn cael eu caniatáu."*<br><br>*Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu unrhyw gyfiawnhad dros y newid ac fe'i ystyrir yn annerbyniol.*<br><br>*Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod y Cyngor Sir, Llywodraeth Cymru a nifer o gyrff cyhoeddus eraill wedi gwario miliynau o bunnoedd ar gael gwared ar dai amlfeddiannaeth o'r Rhyl (ac o'r herwydd y polisi cadarn BSC 7) ac mae o'r farn, petai'r cais hwn yn cael ei ganiatáu, y byddai'n creu cynsail bod tai amlfeddiannaeth yn dderbyniol yn awr.*<br><br>*Gofynna'r Cyngor Tref am roi blaenoriaeth ar unwaith i weithredu gorfodaeth cynllunio gan y Cyngor Sir i adfer yr eiddo i'w ddefnydd cymeradwy.* |

**25. <u>DIWEDDU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...